

Castell Caerdydd

Gweithdy Straeon Dreigiau

Disgrifiad

Mae hwn yn weithdy sy'n seiliedig ar chwarae, ac sy'n rhoi cyfle i ennyn dychymyg disgyblion i fynd â nhw'n ôl i amser marchogion dewr a dreigiau. Bydd Syr Devlin, y marchog, yn cyflwyno cyfres o gemau i'r disgyblion eu chwarae, ac yn adrodd stori ddramatig mewn gweithdy rhyngweithiol, cyffrous.

Er ei fod wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gellir yn hawdd addasu'r sesiynau hyn ar gyfer disgyblion hŷn.

Cynhelir y gweithdy gan hwylusydd proffesiynol mewn dillad o'r oes.

Taith Dywys o'r Castell

Bydd taith o'r Castell yn mynd â'r plant o amgylch rhai o'r ystafelloedd mwyaf trawiadol a lliwgar a ddyluniwyd gan y pensaer, William Burges. Mae ei gynlluniau yn dod o'r cyfnod Fictoraidd ond maent yn adlewyrchu gweledigaeth Burges o sut y byddai tu mewn i Gastell canoloesol wedi edrych.

Hyd

Bydd y gweithdy yn para 75 munud. Bydd y daith dywys yn para tua 50 munud er argymhellir taith fyrrach o 30 munud i blant iau a all gael trafferth dringo'r grisiau troellog. Neilltuir amser ar gyfer cinio ac i fanteisio ar yr agweddau eraill sydd wedi'u cynnwys yn yr ymweliad (gweler isod)

Canlyniadau Dysgu Allweddol

Erbyn diwedd y sesiwn, bydd eich disgyblion wedi:

- ◆ Dysgu am y nodweddion a'r sgiliau fyddai wedi bod yn hanfodol ar gyfer marchog
- ◆ Gweld peth o'r offer y byddai marchog wedi ei ddefnyddio, gan gynnwys arfwisg a chleddyf
- ◆ Gwrando ar stori am farchog a draig a chael cyfle i chwarae rhan yn y stori honno
- ◆ Cymryd rhan mewn cyfres o gemau a gweithgareddau i annog gwaith dychymyg a thîm
- ◆ Ymarfer taflu a chydysymud yn ystod y gemau

Prif Gysylltiadau â'r Cwricwlwm Cenedlaethol

- ◆ Cyfnod Sylfaen (Cymru)
 - Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
 - Datblygiad Creadigol
 - Datblygiad Corfforol
- ◆ Hanes – Cyfnod Allweddol 1 (Lloegr)
 - Digwyddiadau y tu hwnt i gof byw (Hanes)
 - Meistroli symudiadau sylfaenol gan gynnwys taflu a datblygu cydsymud mewn ystod o weithgareddau (Addysg Gorfforol)
 - Cymryd rhan mewn gemau tîm (Addysg Gorfforol)

Beth Arall sy'n Rhan o'ch Ymweliad

- Defnyddio'r Daith Glywedol a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant
- Sioe ffilm a mynediad i ardaloedd y Tiroedd gan gynnwys y Gorthwr, y Bylchfuriau a'r Llochesi Rhyfel.
- Ymweliad â Firing Line - Amgueddfa'r Milwr Cymreig (Amgueddfa Filwrol yn y Ganolfan Ddehongli). Noder: Mae Firing Line yn cael ei rheoli yn annibynnol ac nid yw unrhyw weithgareddau a gynigir yno'n rhan o Wasanaeth Addysg Castell Caerdydd. Efallai na fydd yr ymweliadau yn bosibl ar ddiwrnodau penodol, neu efallai y codir tâl ychwanegol

Fel arfer, mae gennym adar ysglyfaethus ar y safle yn ystod yr wythnos ond ni allwn warantu hyn.